Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.4 Cyflwyniad i fusnes a phwyllgorau'r Cynulliad

Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth yma yn rhoi cyflwyniad i sut mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu. Mae hwn yn cynnwys rôl a phwrpas y sesiynau llawn; sut mae pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithio a chyfleoedd i'r trydydd sector i ddylanwadu ar y rhain.

Cyflwyniad

Mae'r ffordd y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu wedi'i osod allan yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r rhain yn hanfodol yn set o reolau sy'n darparu fframwaith ar sut y dylai'r Cynulliad weithredu. Mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol am drefnu gwaith y Cynulliad, a rhaid caniatáu amser i gyfarfodydd llawn, cyfarfodydd pwyllgor a chyfarfodydd y pleidiau politicaidd. Rhan hanfodol o rôl yr AC yw archwilio gwaith Llywodraeth Cymru a rhoi cyfrif. Elfen allweddol arall o'u swyddi yw gwneud penderfyniadau am bolisïau a blaenoriaethau. Gwneir yr holl waith yma yn ystod sesiynau llawn. Mae archwilio polisïau a deddfwriaeth hefyd yn rhan o waith yr AC mewn cyfarfodydd pwyllgor.

Sesiynau Llawn

Mae sesiwn lawn yn gyfarfod a fynychir gan bob Aelod y Cynulliad. Mae'n digwydd ar brynhawn Mawrth a Mercher yn y Siambr. Mae'r Llywydd yn cyhoeddi agenda ar gyfer pob cyfarfod sy'n dyrannu amser i fusnes y Llywodraeth, heb fod yn y Llywodraeth a'r Cynulliad. Cyhoeddir yr agenda fel rhan o Hysbysiad Busnes ar wefan y Cynulliad. Mae hwn ar gael fel arfer rhyw bythefnos ymlaen llaw, ac mae'n ddefnyddiol i edrych ar yr amserlen, gan y gall roi cyfle i chi baratoi cyfarwyddyd perthnasol i'r AC os oes pwnc o ddiddordeb i chi yn ymddangos. Mae'r Hysbysiad Busnes hefyd yn rhestru manylion y cyfarfodydd pwyllgor sydd i ddod.

Am bob wythnos y mae'r Cynulliad yn cwrdd yn llawn, dyrannir amser i Gwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog, Gweinidogion eraill, y Cwnsler Cyffredinol a Chomisiwn y Cynulliad. Yn ogystal, gall yr AC gyfrannu at ddatganiadau a dadleuon a phleidleisio ar gynigion a gwelliannau. Pleidleisio ar gynigion yw'r ffordd y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud penderfyniadau.

Mae yna hefyd ddadl aelodau byr bob wythnos ar ddiwedd sesiwn lawn Dydd Mercher; mae'r Llywydd yn cynnal pleidlais, ac mae'r Aelod llwyddiannus (a all fod yn unrhyw Aelod heblaw am aelod y LLywodraeth) yn cynnig testun. Gall y Cynulliad hefyd wneud deddfwriaeth yn yr 20 maes polisi datganoledig. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn ystyried ac yn gwella Mesurau sy'n arwain at Ddeddfau'r Cynulliad.

Gellir deddfu'r fath ddeddfwriaeth drwy benderfyniad y Cynulliad mewn sesiwn lawn yn unig.

Gall aelodau'r cyhoedd weld y sesiwn lawn a'r sesiynau pwyllgor o'r orielau cyhoeddus yn y Siambr. Gall y sesiynau yma eu gweld ar 'Senedd TV' (trwy wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru) neu dudalennau De,ocracy Live ar wefan y BBC. Mae 'Cofnod y Trafodion' yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol o fewn 24 awr i bob sesiwn lawn.

Cyfleoedd y Trydydd Sector

Mae yna amryw o ffyrdd y gall mudiadau trydydd sector ddefnyddio trafodion y sesiwn lawn i ymestyn eu hymgyrchu a dylanwadu ar waith. Dyma rai ohonynt:

Cwestiynau: Gall mudiadau ofyn i AC rheng ôl i ofyn cwestiwn i Weinidog y Cynulliad yn ystod un o'r adegau holi. Mae'r Prif Weinidog yn ateb cwestiynau ar sail wythnosol, a Gweinidogion eraill yn ateb bob pedair wythnos. Rhaid cymeradwyo'r cwestiynau gan y Llywydd a rhaid eu nodi o leiaf pum niwrnod cyn disgwyl ateb. Dyma gyfle i fudiadau fynnu datganiad gan y Gweinidog perthnasol ar eu materion neu gael diweddariad ar gynnydd polisi neilltuol. Mae hefyd yn gyfle i amlygu unrhyw adroddiad a gyhoeddwyd gennych chi neu ymgyrch a lansiwyd gennych.

Dadl fer: Efallai bydd mudiadau eisiau awgrymu pynciau posib ar gyfer dadl fer i AC unigol neu bleidiau politicaidd. Os yw AC yn cefnogi eich awgrym, ac y dewisir eu henw yn y bleidlais, fe fydd eich mater yn cael ei drafod yn y sesiwn lawn. Ni wneir unrhyw benderfyniadau wrth wneud hyn ond gallant fod yn gyfleoedd defnyddiol i amlygu materion ac ymgyrchoedd. Gallwch hefyd gysylltu a phleidiau politicaidd yr wrthblaid a gofyn iddynt ystyried codi'ch later o fewn un o'u cyfnodau dadl gwrthblaid.

Briffiau: Mae hi bob amser yn werth edrych ar y busnes yn y sesiwn lawn ymlaen llaw i weld os oes unrhyw ddadleuon ar faterion sy'n berthnasol i'ch mudiad chi. Os oes rhywbeth yn digwydd, efallai byddwch eisiau ysgrifennu papur briff sy'n crynhoi agwedd eich mudiad ar y mater, a'i anfon at yr AC. Wrth ysgrifennu briff, mae'n hanfodol ei fod yn fyr a chryno er mwyn rhoi cyfle i'r AC ei ddarllen. Mae hefyd yn werth ei anfon at ymchwilydd yr AC os oes gennych eu manylion cyswllt. Mae'r ymarfer da i anfon yr un briff at bob AC o bob plaid i sicrhau nad ydych yn bleidiol, a chadw o fewn canllawiau'r comisiwn elusen. Mae'n ddefnyddiol hefyd os yw eich briff yn mynd i gynnwys tystiolaeth a ffeithiau sy'n cefnogi eich dadl. Gall yr AC wedyn ddefnyddio cynnwys y briff os cant gyfle i siarad yn ystod y ddadl. Os yw'r ddadl yn allweddol i waith eich mudiad, efallai y gallwch ystyried cyfarfod ag AC cydymdeimladol ymlaen llaw.

Tu allan i'r sesiwn lawn, mae yna hefyd gyfle i AC nodi Datganiadau Barn. Gellir nodi'r rhain gan unrhyw AC, ar wahân i Aelod o'r Llywodraeth, ar faterion sy'n effeithio Cymru. Gellir cynnal y Datganiadau Barn, eu gwrthwynebu neu roi sylwadau arnynt. Gall mudiadau lobïo AC i nodi Datganiad Barn sy'n berthnasol i fater neu ymgyrch penodol, a gall fod yn ffordd effeithiol i AC eraill roi sylw i'r materion. Cyhoeddir pob Datganiad Barn ar wefan y Cynulliad.

Pwyllgorau

Mae Pwyllgor y Cynulliad yn cynnwys grŵp o AC sy'n cwrdd yn rheolaidd i archwilio polisi a deddfwriaeth. Mae'r pwyllgorau fel arfer yn gytbwys o ran y pleidiau, gan adlewyrchu pob plaid o fewn y Cynulliad. Nid yw Gweinidogion y Cynulliad yn eistedd ar y pwyllgorau, ond gelwir hwy yn aml i roi tystiolaeth am eu meysydd portffolio. Mae mwyafrif y pwyllgorau yn cyfarfod yn gyhoeddus. Mae pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithredu ar nifer o agweddau: mae rhai yn archwilio polisïau Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi cyfrif y Gweinidogion; mae rhai yn archwilio deddfwriaeth posib; ac eraill yn gweithredu'n benodol yn ôl y Cynulliad neu'r Rheolau Sefydlog. Gellir dod o hyd i fanylion cyfrifoldebau pob pwyllgor ynghyd ag aelodaeth y pwyllgorau a manylion cyswllt y clerc ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae llyfr rheolau'r Cynulliad (Rheolau Sefydlog) yn nodi bod yn rhaid i'r Cynulliad sefydlu pwyllgorau sydd â'r pŵer i:

- archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisïau'r llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig;
- archwilio deddfwriaeth;
- ymgymryd â swyddogaethau penodol eraill (mwy yn ddiweddarach); ac
- ystyried unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru

Mae rhai o'r pwyllgorau wedi'u sefydlu i ymgymryd â swyddogaethau penodol. Dyma pwy ydynt:

- Y Pwyllgor Busnes - sy'n gyfrifol am drefnu busnes y Cynulliad
- Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
- Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
- Y Pwyllgor Cyllid
- Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
- Y Pwyllgor Deisebau

Mae'r gweddill yn ymgymryd ag ymchwiliadau archwilio i effaith polisïau a gweithgareddau llywodraeth ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig. Dyma pwy ydynt:

- Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
- Y Pwyllgor Cymuedau, Cydarddoldeb a Llywodraeth Leol

- Y Pwyllgor Menter a Busnes
- Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadywedd
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae trawsgrifiadau ar gyfer pob cyfarfod pwyllgor. Cyhoeddir trawsgrifiadau drafft o fewn pum niwrnod i'r cyfarfod, a fersiwn terfynol o fewn deg diwrnod, ar dudalennau'r wefan.

Cyfleoedd y trydydd sector i ddylanwadu ar bwyllgorau

Gall mudiadau'r trydydd sector fod yn adnodd defnyddiol i bwyllgorau. Gofynnir iddynt weithredu archwiliad manwl ar nifer o bynciau, a gallant elwa oddi wrth dystiolaeth allanol arbenigol. Pan fod pwyllgor yn ymgymryd ag archwiliad, byddant yn cyhoeddi galwad am dystiolaeth, a gall mudiadau'r trydydd sector ymateb i hyn. Byddant yn cymryd tystiolaeth ar lafar oddi wrth fudd-ddeiliaid allanol, a gall hyn fod yn ffordd dda i chi godi materion yn y Cynulliad. Mae'n werth monitro tudalennau gwefan y pwyllgor ar gyfer cyhoeddiadau archwiliadau yn y dyfodol, ond mae'n werth hefyd cysylltu â chlerc y pwyllgor i sefydlu perthynas gadarnhaol gyda nhw. Efallai byddwch eisiau rhoi amlinelliad byr o'ch gwaith i'r clerc, ynghyd â'ch manylion cyswllt. Gellir wedyn anfon gwybodaeth i chi am gyhoeddiadau'r pwyllgor. Gellir gofyn hefyd am dystiolaeth ar lafar - mae'r sesiynau tystiolaeth ar lafar yn digwydd pan fydd yr archwiliad yn casglu tystiolaeth, felly byddai'n ddefnyddiol i'r clerc fod yn ymwybodol o'ch mudiad o'r dechrau, a gall helpu eich cyfle i gael rhoi tystiolaeth ar lafar.

Gall Cadeiryddion y Pwyllgorau fod yn ddylanwadol yn nhermau penderfynu pa archwiliadau bydd y pwyllgor yn eu cynnal, a pha faterion i'w trafod. Mae'n werth gwybod pwy yw Cadeirydd y pwyllgor sy'n berthnasol i'ch mudiad chi (gall fod yn fwy nag un pwyllgor), a pha AC sy'n aelodau o'r pwyllgor. Gellir dod o hyd i'r holl wybodaeth yma ar wefan y pwyllgorau.

Gwybodaeth bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Gwefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliadcymru.org

Hysbysiad Busnes – busnes pwyllgor a llawn
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-notice.htm

Cofnod Trafodion
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-record-of-proceedings.htm

Gwefan y Pwyllgorau
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees.htm

Senedd TV
www.senedd.tv/

Datganiadau Barn
www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-state-opinion.htm

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:28/06/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk